


Llwybr epynt way

A modern trail in an ancient landscape



Llwybr modern mewn tirwedd hynafol



A spectacular 65km permissive bridlepath Llwybr ceffylau caniataol 65km ysblennydd

www.epyntway.org

THE EPYNT WAY is 65 km long and is open to walkers, equestrians and mountain bikers. The trail is well marked with frequent marker posts which have green and white discs. There are also finger posts denoting entry and exit paths. Horse riders will find five receptor points offering corralling, shelter and parking for horse boxes. For those wanting shorter walks there are five circular walks which are detailed on the website.

MAE LLWYBR EPYNT yn 65km o hyd ac mae'n agored i gerddwyr, pobl ar gefn ceffylau a beicwyr mynydd. Mae pyst ac arnynt gylchoedd gwyrdd a gwyn yn dangos yn glir ffordd i fynd. Ceir mynegbyst hefyd yn dangos lle i ymuno â'r Llwybr a'i adael. Mae pum man ar hyd y ffordd yn cynnig corlannau a chysgod i geffylau a lle i barcio faniau ceffylau. Os yw'n well gennych fynd am dro byrrach, mae'r wefan yn dangos pum tro cylchol.



www.epyntway.org

How to get here

For details of rail services on the Heart of Wales line visit www.heart-of-wales.co.uk or National Rail Enquiries www.nationalrail.co.uk or tel: 03457 48 49 50. For local bus services tel: Traveline Cymru on 0871 200 22 33 or visit www.traveline-cymru.org.uk

Sut i gyrraedd

Os hoffech fanylion gwasanaethau trên ar reilffordd Calon Cymru, ewch i www.heart-of-wales.co.uk neu Ymholiadau National Rail: www.nationalrail.co.uk neu ffonio 03457 48 49 50. I gael gwybod am wasanaethau bysus lleol, ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 22 33 neu ewch i www.traveline-cymru.org.uk



More information

For places to stay and all other information contact Visit Brecon tel: 01874 620860 or email: office@visitbrecon.org.uk www.exploremidwales.com

Rhagor o wybodaeth

I gael gwybod am lefydd i aros a phob math o bethau eraill, ffoniwch Croeso Aberhonddu ar 01874 620860 neu ebostio: office@visitbrecon.org.uk www.exploremidwales.com

Epynt Way Association Cymdeithas Llwybr Epynt

epyntway@btinternet.com www.epyntway.org

Published by the Epynt Way Association with support from Powys County Council and Defence Infrastructure Organisation. Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Llwybr Epynt gyda chefnogaeth Cyngor Sir Powys a'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn.



Mynydd Epynt is a rolling expanse of high moorland and deep river valleys. Tremendous views and the sheer variety of landscapes will be lasting memories of any visit here.

You will almost certainly see red kites and buzzards and you may chance a sight of the short-eared owl and barn owl. Brown hares and foxes are frequently seen and very occasionally otters. Wildflowers and grasses offer a colourful spectacle.

Mynydd Epynt lies to the north of the Brecon Beacons in the heart of Mid Wales. It has been a military training area known as SENTA (Sennybridge Training Area) since 1940, and remains an operational live-firing range.

The zone around the ranges is an area of great beauty with a wealth of wildlife and history. Until recently this area was little-visited. Over recent years, the Ministry of Defence together with Powys County Council and a small group of volunteers, now The Epynt Way Association, have developed a multi-user recreational trail encircling SENTA. This has opened up great new opportunities to explore this fascinating area.

Mae **Mynydd Epynt** yn rhostir uchel eang, tonnog gyda dyffrynnoedd dwfn. Byddwch yn cofio'n hir am y golygfeydd mawreddog a'r tirweddau amrywiol a welwch yma.

Byddwch bron yn siŵr o weld barcutiaid coch a bwncathod ac efallai y cewch gip ar dylluan glustiog neu dylluan wen. Gwelir ysgyfarnogod a llwynogod yma'n aml a dyfrgwn yn anaml iawn. Mae'r blodau gwylltion a'r gweiriau yn rhoi lliw i'r wlad.

I'r gogledd o Fannau Brycheiniog ym mherfeddion y Canolbarth y mae Mynydd Epynt. Bu'n ardal hyfforddi filwrol o'r enw SENTA (Sennybridge Training Area) ers 1940, ac mae'n dal yn faes tanio hyd heddiw.

Mae'r ardal o gwmpas y meysydd tanio yn eithriadol o hardd ac mae iddi gyfoeth o hanes a bywyd gwyllt. Tan yn ddiweddar, ychydig o ymwelwyr fyddai'n dod yma. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi bod yn cydweithio â Chyngor Sir Powys a grŵp bychan o wirfoddolwyr, Cymdeithas Llwybr Epynt, i ddatblygu Llwybr hamdden aml-ddefnydd o gwmpas SENTA. Mae hyn wedi sicrhau cyfleoedd gwych i ddod i nabod yr ardal ddiddorol hon.

The Epynt Visitor Centre,

beside the B4519 road at the north-east of the ranges, reveals much of the area's natural and human history. It also has toilets with disabled access. There is a short wheelchair accessible trail starting at this point.

Mae Canolfan Ymwelwyr Epynt,

ger ffordd y B4519 yng ngogledd-ddwyrain y meysydd hyfforddi, yn cyflwyno llawer o hanes yr ardal o ran byd natur a phobl. Mae yno doiledau addas i bobl anabl hefyd. Mae Llwybr byr sy'n addas i bobl mewn cadeiriau olwyn yn dechrau o'r fan hon.

Epynt Way Guidebook

A fully illustrated guidebook to The Epynt Way is available from local information centres. It details the entire route, with comprehensive mapping, gradient/route profiles, step-by-step directions and other information. **It is the only source of full route details and is an essential guide to following the Epynt Way.**

Arweinlyfr Llwybr Epynt

Mae arweinlyfr llawn lluniau ar gyfer Llwybr Epynt ar gael o ganolfannau croeso yn yr ardal. Mae'n rhoi manylion y Llwybr cyfan, gyda mapiau a chyfarwyddiadau cam wrth gam, gan nodi pa mor serth yw'r rhiwiau ac ati. **Dyma'r unig le i gael manylion llawn y Llwybr ac mae'n ganllaw hanfodol i Llwybr Epynt.**



SENTA & Safety on the Epynt Way

The Epynt is carefully managed as an infantry training area, where soldiers learn and practice their craft before deployment to theatres of conflict throughout the world.


Realistic training involves the use of helicopters, artillery and other hardware, pyrotechnics and live-firing.

The Epynt Way is inside the training area but follows near to its boundary and is clearly waymarked throughout. Other than for the Epynt Way, the training area is strictly off-limits to non-military personnel; frequent markers ensure that you know the boundary of the ranges.

Firing may take place at any time and on most days. This does not prevent the use of the Epynt Way by the public as the permissive pathway avoids all live firing areas. The map below shows the training area.

When walking in an anticlockwise direction, the out-of bounds SENTA ranges are on your immediate left. If you are in any doubt that you are not following the designated route then phone the 24 hour operations room on 01874 635599 for guidance. Mobile phones signals are available on top of the hills but frequently not in the valley bottoms.

- Never deliberately stray onto the ranges.
 - Never touch or pick up any object you may find along the route.
 - Be prepared for sudden loud noises at any time.
- In addition to the SENTA restrictions, please follow the Countryside Code:
- Be safe - plan ahead and follow any signs.
 - Leave gates and property as you find them.
 - Protect plants and animals and take your litter home.
 - Keep dogs under close control.
 - Consider other people.



SENTA a Diogelwch ar Llwybr Epynt

Mae Mynydd Epynt yn cael ei reoli'n ofalus fel ardal i hyfforddi milwyr. Yno, cânt ddysgu ac ymarfer eu crefft cyn cael eu hanfon i wledydd lle ceir gwrthdaro ym mhedwar ban byd.

Mae'r hyfforddiant realistig yn cynnwys defnyddio hofrenyddion, gynnau mawr ac arfau eraill, pyrotechneg a ffrwydrion byw.

Mae Llwybr Epynt yn rhedeg y tu mewn i'r ardal hyfforddi ond mae'n agos at y terfyn a cheir arwyddion clir ar hyd y daith. Ar wahân i Llwybr Epynt, nid yw'r cyhoedd yn cael mynd i mewn i'r ardal hyfforddi; mae digon o arwyddion i ddangos lle ceiwch fynd.

Gallwch glywed tanio unrhyw bryd, ar y rhan fwyaf o ddyddiau. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r cyhoedd yn cael cerdded Llwybr Epynt – dydi'r llwybr caniatool ddim yn mynd trwy'r ardaloedd tanio. Ar y map uchod, fe welwch lle mae'r ardal hyfforddi.

Wrth gerdded o gwmpas yn erbyn y cloc, mae'r meysydd SENTA lle na chewch fynd ar y chwith i chi. Os nad ydych yn siwr a ydych yn dilyn y llwybr iawn, ffoniwch y llinell 24 awr ar 01874 635599 i gael cymorth. Mae signalau ffonau symudol ar gael ar ben y brynau ond, yn aml, nid ar lawr y dyffrynnoedd.

- Peidiwch byth â chwydro i'r meysydd ymarfer yn fwriadol.
 - Peidiwch â chodi na chyffwrdd â dim a welwch ar hyd y ffordd.
 - Byddwch yn barod am sŵn uchel sydyn unrhyw bryd.
- Yn ogystal â chyfyngiadau SENTA, dilynwch Gôd Cefn Gwlad:
- Byddwch yn ddiogel – trefnwch ymlaen llaw a dilyn yr arwyddion.
 - Gadewch gatiâu ac eiddo fel yr oeddent cynt.
 - Byddwch yn ofalus o blanhigion ac anifeiliaid ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi.
 - Cadwch eich cŵn o dan reolaeth ofalus.
 - Ystyriwch bobl eraill.